## PWYLLGOR ARCHWILIO 28-09-09

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Gwilym Williams (Cadeirydd);
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** E.T. Dogan, T.G. Ellis, Margaret Griffith, Dafydd Ll. Hughes, Brian Jones, Charles W. Jones, R.L. Jones, John P. Roberts, Ioan Thomas, Gethin Williams a Dylan Edwards (Arweinydd Portffolio Cyllid)

**Hefyd yn Bresennol:** Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Dewi Morgan (Uwch Reolwr Archwilio a Risg), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), William E. Jones (Uwch Reolwr Cyllid), Caroline Roberts (Rheolwr Cyllid Adnoddau a Chorfforaethol Tros Dro), Helen Williams (Cyfrifydd Cyfalaf a Rheolaeth), Marina P. Owen (Swyddog Pensiynau a Buddsoddiadau), Kathryn Roberts (Arweinydd Archwilio – Datblygu), Kevin Thomas (Partner Ymgysylltu Swyddfa Archwilio Cymru), Amanda Hughes (Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru), Gwyn Parry Williams (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorwyr Selwyn Griffiths, Aeron Jones, Eryl Jones-Williams

### 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau canlynol fuddiant personol am y rhesymau a nodir –

Y Cynghorydd Dafydd Ll. Hughes yn yr eitem yn ymwneud ag anabledd dysgu, gofal dydd preifat, gan ei fod yn nyrs cymunedol – tîm anabledd dysgu.

Y Cynghorydd Gethin Williams yn yr eitem yn ymwneud a phryniant bwyd a rheolaeth stoc gan bod ei wraig yn coginio mewn ysgol gynradd.

‘Roedd yr aelodau o’r farn nad oeddynt yn fuddiannau a oedd yn rhagfarnu ac ni adawsant y cyfarfod a chymerwyd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitemau perthnasol.

Y Cynghorydd Gwilym Williams yn yr eitem yn ymwneud a gorwariant Ydgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog gan ei fod yn ewythr i athrawes yn yr ysgol.

‘Roedd yr aelod o’r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

### 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion o’r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 29 Mehefin 2009, fel rhai cywir.

<u>Mater yn Codi</u>
<u>Cofnod 7 – Cynnyrch yr Adain Archwilio Mewnol</u>
<u>b) Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Mai 2009-10-16</u>
<u>Rheolaeth Defnyddwyr a Chymwysiadau CITRIX</u>

Gofynnodd aelod beth oedd y sefyllfa ddiweddaraf parthed y trafodaethau gyda Uned Dechnoleg Gwybodaeth y Cyngor.

Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid y trafodwyd y mater gyda'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Pennaeth Gofal Cwsmer ac y bwriedir maes o law i'r aelodau gael mynediad I gofnodion a.y. ar y rhyngrwyd ym mhrif siambrau'r Cyngor yng Nghaernarfon.

**PENDERFYNWYD pwyso ar y swyddogion perthnasol i gael y system yn weithredol cyn gynted â phosibl.**

## 3. CYFRIFON TERFYNOL 2008/09

i) Datganiad o'r Cyfrifon

Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid y datganiadau ariannol statudol diwygiedig am gymeradwyaeth y pwyllgor. Hysbysodd y cafwyd blwyddyn gyffredinol lwyddiannus eto eleni, gyda'r cyfrifol yn cael eu cwblhau o fewn amserlen heriol cyn diwedd Mehefin. Cyfeiriodd at un mater lle na chytunir yn llwyr ag ef, sef y ddarpariaeth ariannol ar gyfer hynny. Efallai nad yw'r ffordd yr ymdriniwyd â'r mater 100% yn unol â gofynion FRS 12 (fel a nodir yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru), ond 'roedd y swyddogion yn deall sylwad yr Archwiliwr ac 'roedd yr Archwiliwr yn deall y ffordd yr ymdriniodd y Cyngor â'r mater. 'Roedd yna gytundeb i anghytuno ar yr un pwynt yma parthed y cyfrifol, ac mae'r Cyngor eisiau symud ymlaen gyda'r cyfrifon fel ag y maent, mae'r Archwiliwr yn ymwybodol o hynny, ac yn barod i roddi barn diamod ar y cyfrifon beth bynnag.

Hysbysodd y Pennaeth Cyllid ymhellach ei fod yn gyffredinol fodlon ar gynnwys adroddiadau'r Archwiliwr gan dynnu sylw at neges pwysig yn y ddau adroddiad lle 'roedd yr Archwilydd Penodedig yn cyflwyno adroddiad heb ei addasu ar y cyfrifon ac adroddiad diamod ar y gronfa bensiwn.

Tynnwyd sylw gan yr Uwch Reolwr Cyllid at rai o'r prif faterion a nodwyd yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru. Cyfeiriodd ef hefyd at y mater sef FRS12 mewn perthynas â safle Cilgwyn. Eglurodd bod y Cyngor erbyn hyn wedi buddsoddi oddeutu £3m i ddatrys sefyllfa safle Cilgwyn oherwydd y gwaith angenrheidiol o gapio'r safle.

Adroddwyd gan yr Uwch Reolwr Cyllid bod cwmni IPF, sy'n gwmni dan berchnogaeth CIPFA, wedi ei gomisiynu i ddarparu adroddiad a chynllun gweithredu system cofrestru asedau.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl cyflwyno diweddariad i'r pwyllgor nesaf ar sefyllfa'r prosiect. Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Cyllid y byddai'n gwneud hynny.

**ii) Adroddiad ffurfiol "ISA 260"**
**a) Datganiadau Cyfrifon 2008/09 Cyngor Gwynedd**

Yn unol â threfn Archwilio blynyddol "ISA 260", sef adroddiad yr Archwilydd Penodedig i'r rhai sy'n llywodraethu, cyflwynwyd adroddiad Swyddfa Archwilio

Cymru (SAC). ‘Roedd Partner Ymgysylltu SAC, sef cynrychiolydd Archwilydd Penodedig SAC ar gyfer Cyngor Gwynedd yn bresennol i gyflwyno’r wybodaeth.

Adroddwyd bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno’r sefyllfa ariannol fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009 yn ogystal a’r incwm a’r gwariant yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd od ydynt o’r farn bod yr adroddiadau yn cyflwyno’r sefyllfa ariannol yn deg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd y bwriedir cyhoeddi adroddiad archwilio heb ei addasu ar y cyfrifon.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriwyd at rai pryderon a chyfeiriodd y Rheolwr Lleol SAC at y rhain yn unigol gan nodi gwelliannau posibl. Tynnodd sylw eto at yr un camddatganiad na chywirwyd, heblaw mân gamddatganiadau a ddiffinnir fel rhai sy’n ddibwys. Nodwyd bod SAC wedi gofyn i’r Cyngor ddarparu £1.919m ychwanegol i dalu’r costau sy’n codi o hen rwymedigaeth mewn perthynas â’r costau capio ac ôl-ofal ar safle gwaredu gwastraff Cilgwyn”. Byddai hyn wedi darparu’r arian i dalu costau yn y dyfodol tra’n cydymffurfio â gofynion FRS12. Gan nad yw’r Cyngor yn fodlon cywiro’r camddatganiad hwn, yna bydd angen nodi’r rhesymau tros beidio â gwneud hynny mewn llythyr.

Cyfeiriodd Partner Ymgysylltu SAC hefyd at y ffaith nad oes modd cwblhau’r archwiliad yn ffurfiol a rhoddi tystysgrif archwilio hyd nes y byddai ymholiadau’n codi o fater a godwyd gan aelod o’r cyhoedd yn ystod 2006/07 wedi eu cwblhau’n ffurfiol. Fodd bynnag, cadarnhaodd na fyddai’r mater yn effeithio ar gyfrifon 2008/09. Hysbysodd bod Anthony Barrett o Swyddfa Archwilio Cymru wedi cwblhau ei ymchwiliad i’r mater ac wedi cyhoeddi datganiad tros dro o’i ddarganfyddiadau i’r gwrthwynebydd a’r Cyngor gan ofyn am eu sylwadau ar y datganiad erbyn 9 Hydref 2009. Yn dilyn hynny, disgwylir y gellir cwblhau’r archwiliad yn ffurfiol a rhoddi tystysgrifau archwilio ar gyfer cyfrifon 2006/07, 2007/08 a 2008/09.

Tynnodd sylw at un mater o ddiddordeb llywodraethu sef y buddsoddiadau a gedwir gan yr awdurdod mewn banc cysylltiedig â Gwlad yr Iâ a aeth i’r wal yn Hydref 2008. O ganlyniad, ‘roedd angen i’r awdurdod ystyried i ba raddau y mae’r digwyddiadau hyn wedi lleihau gwerth yr adneuon hyn ar gyfer cyfrifon 2008/09. Nododd y cyhoeddodd CIPFA ganllawiau diwygiedig ym Medi 2009 yn amlinellu’r sefyllfa ddiweddaraf o ran adferiad tebygol. Adolygodd y Cyngor y wybodaeth ddiwygiedig hon a chyfrifwyd y byddai effaith y newid yn gwella gwerth yr adneuon £35,000 ymhellach, ac mae £5,000 ohono’n gysylltiedig â’r gronfa bensiwn. Gan nad yw’r swm hwn yn berthnasol ac y gallai newid, ni wnaed diwygiad arall i’r datganiad cyfrifon.

Codwyd nifer o gwestiynau gan yr aelodau ar y cyfrifon ac adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru ac ymatebodd y swyddogion iddynt. Mewn ymateb i ymholiad gan aelod parthed cost yr archwiliad ar y mater a godwyd gan aelod o’r cyhoedd yn 2006/07, cytunodd Partner Ymgysylltu SAC gyflwyno adroddiad ar gost ymchwiliadau perthnasol Archwilydd Penodedig SAC i’r cyfarfod nesaf o’r pwyllgor hwn.

**b) Datganiadau Cyfrifon 2008/09 y Gronfa Bensiwn**

Fel yr uchod, adroddodd Rheolwr Lleol Swyddfa Archwilio Cymru bod y Cyngor yn gyfrifol am baratoi datganiadau ariannol i gyflwyno sefyllfa ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2009.yn ogystal â swm a natur asedau a rhwymedigaethau'r gronfa yn y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny, ar wahân i rwymedigaethau i dalu pensiynau a budd-daliadau ar ôl diwedd blwyddyn y cynllun.

Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn gyfrifol am gynnal archwiliad ac adrodd os ydynt o'r farn bod yr adroddiadau yn cyflwyno sefyllfa ariannol y gronfa bensiwn yn deg ar ddiwedd blwyddyn. Hysbysodd y bwriedir cyhoeddi barn archwilio diamod ar gyfrifon y gronfa bensiwn.

Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru cyfeiriwyd at rai pryderon a chyfeiriodd Rheolwr Lleol SAC at y rhain yn unigol gan nodi rhai gwelliannau posibl.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiadau a diolch i'r staff perthnasol yn yr Adrn Gyllid ar eu gwaith caled yn cynhyrchu'r cyfrifon.**

**iii) Llythyrau Cynrychiolaeth**

Yn dilyn y trafodaethau ar gyfrifon terfynol 2008/09, cyflwynodd y Pennaeth Cyllid lythyrau drafft at yr Archwilydd Penodedig gan y Pwyllgor Archwilio sydd â chyfrifoldeb am lywodraethu yng Nghyngor Gwynedd. 'Roedd y "llythyrau cynrychiolaeth" hyn yn cynnwys gosodiadau ynglyn â datganiadau ariannol/cronfa bensiwn 2008/09 gan ymdrin ag amrywiol faterion gan gynnwys asedau, rhwymedigaethau, buddsoddiadau a rheolaeth fewnol. Eglurodd iddo ddrafftio'r sylwadau ar ran "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu", sef y Pwyllgor Archwilio.

Eglurodd y Pennaeth Cyllid bod y rhan "ymrwymiadau" o'r llythyr cyntaf yn ymdrin gyda'r mater "FRS 12", parthed darpariaeth Cyngor Gwynedd ar gyfer capio ac ôl-ofal safle Cilgwyn, a drafodwyd yn flaenorol. Fel arall adroddodd bod y llythyrau'n nodi bod y Cyngor, wrth gau'r cyfrifon, wedi cydymffurfio ag amrywiol amodau, nad oes camddatganiadau o sylwedd materol yn y datganiadau ariannol statudol ac nad oes unrhyw faterion o'r fath wedi eu hepgor.

**PENDERFYNWYD bod y Pwyllgor Archwilio, gyda'r grym wedi ei ddirprwyo gan y Cyngor i fod "y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" yng nghyswllt cymeradwyo'r datganiadau ariannol statudol a'r archwiliad perthnasol, yn awdurdodi'r Pennaeth Cyllid a Chadeirydd y Pwyllgor i arwyddo'r llythyrau a'u cyflwyno i Archwilydd Penodedig Swyddfa Archwilio Cymru.**

**4. CYNNYRCH YR ADAIN ARCHWILIO MEWNOL**

**Gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod hyd at 31 Awst 2009**

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn amlinellu gwaith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod rhwng 1 Mehefin a 31 Awst 2009. Wrth gyflwyno'r wybodaeth am y gwaith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod cyfeiriodd y swyddog at -

- 19 o adroddiadau ffurfiol am archwiliadau o’r cynllun archwilio blynyddol gyda’r categori barn berthnasol yn cael ei ddangos.
- 1 archwiliad pryd y cynhyrchwyd memoranda, yn hytrach nag adroddiad llawn.
- 3 archwiliad dilyniant.
- 1 archwiliad ymatebol

Adroddwyd ar waith pellach sydd ar y gweill gan Archwilio Mewnol. ‘Roedd hyn yn cynnwys 11 o adroddiadau drafft sydd wedi eu rhyddhau a 42 o archwiliadau sy’n mynd rhagddynt.

Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiadau yn unigol ac yn ystod y drafodaeth cyfeiriwyd at y materion canlynol –

**Trefniadau Yswiriant**

Gofynnodd aelod am eglurhad pellach ar y prif ddarganfyddiadau.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg ei fod yn yr achos hwn, yn gwsmer o ran trefniadau rheolaethol ar yswiriant a bod dyletswyddau adolygu a.y. wedi eu dirprwyo i Uwch Swyddog arall yn Archwilio Mewnol. Darganfuwyd wrth gymharu rhestr eiddo yr Uned Eiddo gyda rhestr eiddo yr Uned Yswiriant, nad oedd un eiddo wedi ei gynnwys ar y rhestr ac fe’i cywirwyd. Sicrheir o hyn ymlaen na fydd gwahaniaeth rhwng y ddwy restr.

**Cartref Henoed Cefn Rodyn, Dolgellau**

Gofynnodd aelod am eglurhad pellach parthed yr ail bwynt bwled yng nghynnwys barn yr archwiliad sef “y dylid gwirio’r dadansoddiad misol o gyflogau gweithwyr yn drylwyr er mwyn sicrhau nad yw’r Cyngor yn talu cyflog i unigolyn sydd ddim yn gweithio i’r cartref ac er mwyn osgoi taliadau dyblyg”.

Mewn ymateb, hysbysodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg na ddarganfuwyd unrhyw golledion na thwyll yn deillio o’r gwendidau rheolaeth ond efallai yn yr achos hwn bod gwariant wedi ei godio i’r lle anghywir. Trafodwyd y mater gyda’r Pennaeth Darparu a Hamdden a’r Uwch Reolwyr perthnasol ac ‘roeddynt yn awyddus i’r rheolwyr dderbyn hyfforddiant pellach.

**Cynllun Gorsaf Rheilffordd Bangor**

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg bod Uwch Reolwyr wedi gofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad o drefniadau’r cynllun uchod yn dilyn amheuon gan y swyddogion o hyfwydra’r prosiect erbyn hyn a’r rhwystredigaeth a deimlir o gydweithio gyda un o’r partneriaid. Nododd mai cwmpas yr archwiliad oedd adolygu ffeiliau gwaith y Gwasanaeth Ymgynghoriaeth a thrafod y cynllun gyda’r Peiriannydd Grŵp (Gwasanaeth Ymgynghoriaeth) a’r Prif Beiriannydd Trafnidiaeth a Gofal Stryd, sef y client. Mae’r diffyg gweledol o ddatblygiad yng ngorsaf Bangor ar ôl 9 mlynedd o’r prosiect yn ofidus. Teimlad swyddogion y Cyngor yw bod y prosiect hwn wedi bod yn llafurus a bod angen i’r cwmni allanol gydweithredu â’r Cyngor er mwyn gallu symud y prosiect ymlaen oherwydd os na wneir hynny, ‘roedd posibilrwydd y collir y gwahanol grantiau. Nid oedd yn briodol i roddi’r categori barn arferol i’r archwiliad penodol yma oherwydd bod y Cyngor yn ddibynnol ar gwmni allanol i gydweithredu a chydweithio er mwyn cyflawni amcanion.

**PENDERFYNWYD cefnogi barn yr archwiliad ond pwyso ar Gwmni Network Rail i gydweithredu â'r Cyngor er mwyn symud y prosiect ymlaen cyn gynted â phosibl.**

**Gorwariant Ysgol Maenofferen, Blaenau Ffestiniog**
(Gan i'r Cadeirydd ddatgan buddiant personol yn yr eitem hon, cadeiriwyd y drafodaeth gan yr Is-gadeirydd)

Adroddodd yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yr archwiliwyd rheolaethau cyllidol yn Ysgol Maenofferen ynghyd â gweithdrefnau yr Uned Gyllid Datblygu oherwydd y rhagwelwyd gorwariant sylweddol erbyn diwedd blwyddyn gyllidol 2008/09. Archwiliwyd y trafodion ariannol a wnaed rhwng 2005 a 2008 yn ogystal â thymor cyntaf blwyddyn ariannol 2008/09. Nododd mai'r prif ddarganfyddiadau yn deillio o'r archwiliad yw nad oedd y cyn-bennaeth wedi paratoi adroddiadau monitro ariannol priodol yn dangos unrhyw amrywiadau sylweddol yn erbyn y gyllideb ar gyfer yr Is-bwyllgor Cyllid na'r Corff Llawn yn rheolaidd. Barn yr archwiliad yw petai'r cyn-bennaeth wedi paratoi adroddiadau monitro priodol yn dangos unrhyw amrywiadau sylweddol ar gyfer yr Is-bwyllgor Cyllid/Corff Llawn yn rheolaidd, yna byddai'r gorwariant ar y gwahanol benawdau wedi cael eu hadnabod ac efallai eu cwestiynu ymhellach gan y llywodraethwyr. Ni welwyd tystiolaeth o ymgais gan y llywodraethwyr i dderbyn y wybodaeth chwaith. Pwysleisiodd ei bod yn allweddol cael perthynas adeiladol rhwng llywodraethwyr ysgol â'r pennaeth a bod hyfforddiant i lywodraethwyr yn hanfodol er mwyn iddynt wybod pa wybodaeth i holi amdano.

Gofynnodd aelod a fyddai'n bosibl i'r Technegydd Cyllid Addysg gyfarfod Is-bwyllgor Cyllid yr ysgol unwaith bob tymor. Mewn ymateb, hysbysodd y Pennaeth Cyllid na fyddai'n ymarferol bosibl i'r technegwyr fynychu corff llywodraethol bob ysgol yng Ngwynedd, ond nododd mai'r drefn arferol yw bod y technegydd yn cynnal cyfarfodydd gyda'r penaethiaid i drafod y gyllideb ac yn dilyn hynny bod y penaethiaid yn adrodd yn ôl i'w cyrff llywodraethol. Fodd bynnag, yn yr achos penodol hwn, oherwydd y trafferthion a gafwyd yn y gorffennol, ni ragwelai unrhyw drafferth i'r Technegydd Cyllid Addysg ac Uwch Reolwr Addysg gyfarfod Is-bwyllgor Cyllid yr ysgol yn ystod y tymor cyfredol.

Nododd aelod arall bod negeseuon pwysig i bob llywodraethwr ysgol yn deillio o'r adroddiad hwn ac 'roedd o'r farn y dylai corff llywodraethol pob ysgol dderbyn copi o'r adroddiad. Mewn perthynas â'r prif argymhellion yn adroddiad yr archwiliad ac yn benodol yr argymhelliad cyntaf, 'roedd o'r farn y dylid diwygio geiriad yr argymhelliad i ddarllen –"Dylid cael Is-bwyllgor Cyllid gan bob corff llywodraethol, a mynnu eu bod yn derbyn adroddiadau monitro'n rheolaidd yn unol â'u cyfrifoldebau statudol". Yn ogystal, mewn perthynas â'r pedwerydd argymhelliad, 'roedd o'r farn y dylid dileu'r gair "ystyried" o'r linell gyntaf fel ei bod yn darllen "Er mwyn cryfhau gweithdrefnau llywodraethu dylid sefydlu trefn lle bo'r Uned Cyllid Datblygu yn cysylltu'n uniongyrchol â Chadeirydd Llywodraethwyr yr ysgol dan sylw yn ogystal â hysbysu'r pennaeth pan fo gorwariant arwyddocaol ar benawdau cyllidol ysgolion".

Mewn ymateb i'r sylwadau uchod, hysbysodd y Pennaeth Cyllid ei bod yn statudol bod Corff Llawn pob ysgol yn rhoddi sêl bendith i'r gyllideb. 'Roedd o'r farn y dylid gadael yr hyblygrwydd i'r ysgolion unigol benderfynu sut y

maent fel corff llywodraethol am fonitro sefyllfa ariannol ysgol. ‘Roedd yn cytuno y dylid dileu’r gair “ystyried” o’r linell gyntaf yn y pedwerydd argymhelliad.

Tynnwyd sylw gan y Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol mai mater i bob corff llywodraethol yw sefydlu cyfansoddiad yr ysgol ac ni ddylai’r Cyngor fynnu eu bod yn gosod is-bwyllgorau.

**PENDERFYNWYD cytuno gyda barn yr archwiliad gyda’r diwygiadau a nodir.**

**PENDERFYNWYD derbyn gweddill yr adroddiadau ar waith yr Adain Archwilio Mewnol am y cyfnod o 1 Mehefin i 31 Awst 2009 a chefnogi’r argymhellion a gyflwynwyd eisoes i reolwyr y gwasanaethau perthnasol er gweithrediad.**

## 5. CYNLLUN ARCHWILIO MEWNOL 2009/10

Cyflwynwyd adroddiad yr Uwch Reolwr Archwilio a Risg yn rhoddi diweddariad ar y sefyllfa gyfredol o ran cwblhau cynllun archwilio mewnol 2009/10.

Rhoddodd fanylion am y sefyllfa fel ag yr oedd ar 31 Awst 2009 yn ogystal â’r amser a dreuliwyd ar bob archwiliad hyd yma. Tynnwyd sylw at y tabl canlynol sy’n datgelu statws cyfredol y gwaith yn y cynllun gweithredol -

| **Statws yr Archwiliad** | **Nifer** |
|---|---|
| Wedi ei gynllunio | 61 |
| Staff wedi eu clustnodi | 1 |
| Crewyd papurau gwaith | 8 |
| Gwaith maes ar y gweill | 21 |
| Cwblhawyd Gwaith Maes | 2 |
| Disgwyl Adolygiad | 2 |
| Adroddiad drafft | 4 |
| Adroddiad yn Gytunedig | 2 |
| Adroddiad terfynol | 3 |
| Cyfanswm | **104** |
| | |
| Wedi ei ganslo | 1 |

Hysbysodd mai targed perfformiad 2008/09 yw 95%. Ar ddiwedd chwarter 2, fel rhan o’r broses adolygu perfformiad arferol, bydd rhaid ystyried os bydd angen adnoddau ychwanegol tros dro er mwyn cwblhau’r cynllun, gan roddi sylw dyledus i gostau ymglymedig gwneud hynny. ‘Roedd y cynllun archwilio drafft yn seiliedig ar adnoddau archwilio o 1,573 diwrnod archwilio ar gael ar gyfer Cyngor Gwynedd. Fodd bynnag, oherwydd absenoldebau salwch hir-dymor disgwyliedig, bu’n rhaid addasu’r rhagdybiaeth o adnoddau cyn diwedd chwarter 1, a pharatowyd cynllun busnes terfynol yr adain ar y sail y byddai 1,441 diwrnod ar gael er mwyn cynnal archwiliadau mewnol y Cyngor. Tynnodd sylw at y ffaith bod yr archwiliadau oedd yn y cynllun drafft, nad ydynt wedi eu cynnwys yn y cynllun terfynol, wedi eu symud i gynllun drafft 2010/2011 a rhoddodd fanylion amdanynt i’r aelodau.

Mewn perthynas ag addasiadau i'r cynllun, hysbysodd y swyddog bod y cynllun archwilio TG wedi ei fireinio fel bod Archwilio Mewnol yn canolbwyntio eleni ar sicrhau cydymffurfiaeth gyda gofynion CoCo, sef safonau diogelwch ("Code of Connection") systemau cyfrifiadurol y mae'n ofynnol cydymffurfio â hwy os am drosglwyddo gwybodaeth gydag asiantaethau'r Llywodraeth. Golygai hyn na fydd Contractau TGCh yn cael eu harchwilio eleni, ac mae cwmpas yr archwiliad ar drefniadau archebu nwyddau TG hefyd wedi ei gwtogi. Yn ogystal, ni fydd tendr am wasanaethau bancio'n cael ei gynnal bellach tan 2010/11, a olygai bod y dyddiau archwilio a glustnodwyd i'r gwaith hwn wedi ei leihau o 12 i 2 ddiwrnod. Bydd hyn yn caniatau i Archwilio Mewnol sicrhau cyn diwedd Mawrth 2010 bod yr amserlen ar gyfer y broses wedi ei sefydlu.

**PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad fel diweddariad o gynnydd yn erbyn cynllun archwilio 2009/10.**

## 6. RHEOLAETH TRYSORLYS 2008/09

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid y mabwysiadwyd Côd Ymarfer CIPFA ar Reolaeth Trysorlys gan y Cyngor ar 4 Mawrth 2003 ac mae'r Cyngor yn cydymffurfio'n llawn â'i ofynion. Nododd wir ganlyniadau gweithgaredd rheolaeth trysorlys y Cyngor yn ystod 2008/09 yn erbyn y strategaeth a sefydlwyd am y flwyddyn ariannol ym mis Mawrth 2008. 'Roedd yr adroddiad yn manylu ar sefyllfa portffolio rheolaeth trysorlys Cyngor Gwynedd ar 31 Mawrth 2008 a 31 Mawrth 2009, cyfraddau llog, benthyca, aildrefnu dyledion, buddsoddiadau a chydymffurfiad â chyfyngiadau'r trysorlys.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 12.30pm